

Tyfu ar gyfer twf

E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Haf 2023.

Croeso i'n E-fwletin pwrpasol cyntaf ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

Beth sy'n digwydd nawr?

Darganfyddwch sut i dyfu planhigion iachach fyth

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cynhyrchu [erthygl dechnegol](#) fel rhan o'u gwaith ar y ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth.

Diweddariad Chwilen Tatws Colorado - nid ar datws yn unig!

Mae'r larfa a'r oedolion yn bwydo ar sawl aelod wedi'i drin ac aelod gwyllt o'r teulu Codwarth (Solanaceae), megis tatws, tomato, planhigyn wy, a phupur, ac yn fygythiad sylweddol i gnydau tatws. Os nad ydych wedi clywed amdano eto, darllenwch fwy [yma](#) a rhowch wybod i APHA am unrhyw ganfyddiadau a amheuir drwy ffonio: 0300 1000 313 (opsiwn 3) planthealth.info@apha.gov.uk

Uchafbwyntiau garddwriaethol o'r Sioe Frenhinol

Roedd llawer o uchafbwyntiau o'r sioe frenhinol yr haf hwn, ond gwnaed cyhoeddiad nodedig ynglŷn â dadorchuddio Adran Arddwriaethol ar ei newydd wedd gan Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ar gyfer 2024. Roedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Lesley Griffiths AS yn cefnogi lansiad y 'Pentref Garddwriaethol a fydd yn destun trafod mawr yn y sioe frenhinol y flwyddyn nesaf. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan neu os oes gennych unrhyw sylwadau, e-bostiwch sarah.gould2@lantra.co.uk

Mae tyfwyr yn wynebu'r tymheredd uchaf erioed ym Moroco

Ar 11 Awst, am y tro cyntaf mewn hanes, mae'r tymheredd ym Moroco yn uwch na 50.4 gradd Celsius, yn rhanbarth Souss Massa lle mae rhan fawr o domatos, llyisiau cynnar, ffrwythau coch, ffrwythau cerrig, a chynhyrchiant ffrwythau tymhorol y wlad wedi'u lleoli. Mae tyfwyr yn rhagweld prinder hadau ac oedi i'r tymor cynnar, gan gynyddu'r galw am y cynnyrch hwn gyda'n manwerthwyr mawr. Gweler yr erthygl ar ' Hortidaily ' [yma](#).



Diweddaru eich gwybodaeth

Peidiwch â cholli Gweithdy Garddwriaeth Mawn Cymru ddydd Llun 25 Medi

Ydych chi eisoes yn trawsnewid i ddefnyddio Cyfrwng nad yw'n cynnwys mawn, neu eisoes yn ddi-fawn? Beth yw eich barn am gyflenwad a chysondeb dewisiadau amgen nad yw'n cynnwys mawn? Beth sydd angen digwydd? Mae Llywodraeth Cymru am glywed sut y bydd Gwaharddiad Mawn 2026 yn effeithio arnoch chi, ac ar y diwydiant yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Ymunwch â ni **ar-lein NEU yn bersonol** yn Swyddfa Llywodraeth Cymru yn y Drenewydd ddydd Llun, 25 Medi (10:30-12:30). I fynychu'r digwyddiad hwn, cofrestrwch yma: [Gweithdy Mawn Garddwriaeth Cymru](#)



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Ein gweminar ar gynnyddu bioamrywiaeth ar safleoedd garddwriaethol

Ar ar 7 Awst cynhaliwyd gweminar gwych o arferion gorau ar gyfer bioamrywiaeth, dan arweiniad yr ecolegydd arbenigol Barry Stewart o www.celticwildflowers.co.uk. Roedd y pynciau'n cynnwys: cefnogi pryfed peillio a phryfed i reoli plâu; 'hybu' blodau a hadau mewn ardaloedd sy'n cael eu ffermio; pwysigrwydd ffiniau caeau, 'coridorau gwyrdd', nodweddion gwlyb a rheoli 10% o safle fel amrywiaeth o gynefinoedd bywyd gwyllt. Cyflwynodd Gethin Davies o'r RSPB hefyd y [Bartneriaeth Bywyd Gwyllt Fferm](#) sy'n bwriadu gweithio gyda thyfwyr a busnesau.



Beth am bryfed llesol?

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bryfed llesol, planhigion i'w tyfu gyda'i gylydd, a bwyd amgen er lles llesol ar y daflen ffeithiau hon: [hyrwyddo pryfed buddiol](#)



Ein Harbenigwyr Technegol

Mae ein harbenigwyr wedi cwmpasu llawer yr haf hwn, gan ymweld â safleoedd o Benrhyn Gŵyr i Ynys Môn. Gallwch chithau hefyd gael hyd at 12 awr o [gymorth busnes garddwriaeth](#) gan arbenigwyr drwy'r cynllun cyswllt ffermio.

Awgrymiadau ar gyfer eich rhwydweithiau nawr

Canolbwyntio ar ... **dwrastiaeth arddwriaethol**

Cynaeafu Lafant

Mae lafant yn gnwd gwych ar gyfer bywyd gwyllt a **thwristiaeth arddwriaethol**. Gellir ei gynaeafu rhwng mis Gorffennaf a mis Awst. Mae'n well torri blodau pan fydd y planhigion yn sych, a bydd haul cryf yn gwella cynnwys olew. Ar gyfer blodau sych, dylech eu torri ychydig cyn i'r blodau fodeuo'n llawn, a'u rhoi ar glawr agored a'u sychu yn yr haul (wedi'i orchuddio yn y nos) neu mewn ystafell sych wedi'i hawyru. Am ragor o wybodaeth gweler [yma](#).



Paratoi ar gyfer ... Pwmpenni

Ar ôl y tywydd gwlyb yr ydym wedi bod yn ei gael yn ystod mis Awst eleni, efallai y byddwch yn cael problemau gyda llwydni a phydredd ffrwythau, os felly, gweler y daflen dechnegol [yma](#) a sicrhewch eich bod wedi [cofrestru](#) ar gyfer y Rhwydwaith Twristiaeth Arddwriaethol er mwyn cael yr hyfforddiant ar bwmpenni y byddwn yn ei rannu'n fuan.



Chwilio am ychydig mwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer y tymhorau sydd ar y gweill?

Mae Croeso Cymru eisiau gwybod beth sydd gan busnesau twristiaeth a lletygarwch wedi'i gynllunio ar gyfer Calan Gaeaf, Noson Tân Gwyllt, y Nadolig a beth sy'n newydd ar gyfer 2024. Byddant yn casglu ac yn rhannu manylion gyda'u Cysylltiadau Cyhoeddus a Chysylltiadau â'r Cyfryngau. E-bostiwch nhw heddiw: productnews@gov.wales



Canolbwyntio ar... **Cynhyrchu cynnyrch bwydadwy ac addurniadol**

Byddwch yn ymwybodol ac yn barod ar gyfer Thrips

Mae cerdded o amgylch cnwd yn rheolaidd yn hanfodol yn ystod y misoedd nesaf. Edrychwch ar [y gweminar flaenorol yma](#) am ragor o wybodaeth, neu gwnewch gais [yma](#) i gael cymorth gan arbenigwr IPM.

Ydych chi wedi clywed am ein **Rhwydweithiau** eraill?

Mae rhwydweithiau yn gyfle gwych i gael cyngor penodol, cael y wybodaeth ddiweddaraf, cwrdd â thyfwyr eraill, a chael hyfforddiant manwl. Gallwch fod yn aelod o gynifer o rwydweithiau ag sydd angen. I ymuno cliciwch [yma](#). **Mae ein Rhwydweithiau'n cynnwys:**

Gardd fasnachol	Ffrwythau	Organig a throi	Asbaragws	Coed Nadolig	Cynnyddu cynnyrch bwydadwy (ar gyfer y rhai sydd am ehangu'r elfen cynhyrchu)
Addurniadol	Berwr y dŵr Cymru	Gwinllan	Thwristiaeth arddwriaethol	Blodau Cymru	Newydd-ddyfodiaid (yn newydd i, neu'n 'dysgu' ym maes garddwriaeth)

Ydych chi'n credu y dylem ychwanegu rhagor? Rydym yn croesawu awgrymiadau: horticulture@lantra.co.uk

Beth sydd ymlaen

A wyddoch fod croeso mawr i chi ymuno â ni ar yr ymweliadau safle gwych yr ydym wedi'u cynllunio? Peidiwch â cholli cyfle a chofrestrwch [yma](#) heddiw.

- **Dydd Mercher 13 Medi** - cynhyrchu cymaint â phosibl o fwyd mewn gofod cyfyngedig - Fferm Langtons
- **Dydd Iau 21 Medi** - Arloesedd ac Arallgyfeirio – Llanfair-ym-Muallt / BUILT Wells
- **Dydd Llun 25 Medi** - Gweithdy Mawn Garddwriaeth Cymru - Y Drenewydd
- **Dydd Mercher 4 Hydref 2023** Cynhyrchu Garddwriaeth Organig ar Waith gydag Iain Tolhurst, MBE. Tolhurst Organic - Yr Eglwys Newydd



Cymorth Grant

Sylwer ar y [dyddiadau sydd ar y gweill](#) ar gyfer pan fydd y llywodraeth yn derbyn ceisiadau ar gyfer cynlluniau gwledig, a chysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol, neu cysylltwch â'n swyddfa ar 01982 552646 neu horticulture@lantra.co.uk am gyngor. Disgwylir i'r dyddiadau ar gyfer **Cynllun Datblygu Garddwriaeth** gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2023.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid gwneud pob cais ynghylch cemegau i ddiogelu cnydau yn unol ag argymhellion label, y dylid ymgynghori â nhw cyn chwistrellu. Mae defnyddio plaladdwr yn cael ei wneud ar fenter y defnyddiwr ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar-label ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr neu gynnyrch llesol. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai'r tyfwr ofyn am gyngor gan arbenigwr cymwys - cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad - mae cyngor dros e-bost/ffôn hefyd ar gael. Nid ydym yn sicrhau, yn cymeradwyo, yn gwarantu nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.